OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 2600 (Cy. 284)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol y Bont, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau ar Aros Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Hydref 2012* |
| *Yn dod i rym* | *17 Hydref 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi'u bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Hydref 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol y Bont, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau ar Aros Dros Dro) 2012.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

mae i "bathodyn person anabl" *("disabled person's badge")* yr ystyr a roddir yn Rheoliad 2 o Reoliadau Pobl Anabl (Bathodynnau i Gerbydau Modur) (Cymru) 2000**(3)**;

mae i "disg parcio" *("parking disc")* yr ystir a roddir yn Rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Pobl Anabl) (Cymru) 2000**(4)**.

(2) At ddibenion y Gorchymyn hwn bernir bod cerbyd yn arddangos:-

(i) bathodyn person anabl yn y lle perthnasol:-

(a) yn achos cerbyd y mae iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r bathodyn yn cael ei arddangos arno fel bod blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu

(b) yn achos cerbyd nad oes iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r disg yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; a

(ii) disg parcio yn y lle perthnasol:-

(a) yn achos cerbyd y mae iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r disg yn cael ei arddangos arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu

(b) yn achos cerbyd nad oes iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r disg yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 7(1)(a), (c), (ch), (d), ac (dd), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros, llwytho na dadlwytho ar unrhyw adeg ar ymyl y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 7, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri

na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ymyl y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 7, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ymyl y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 ar unrhyw adeg rhwng 10:00 o'r gloch a 15:00 o'r gloch unrhyw ddiwrnod.

**6.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 7(1)(a), (c), (ch), (d), ac (dd), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros, llwytho neu ddadlwytho ar ymyl y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 ar unrhyw adeg rhwng 15:00 o'r gloch a 10:00 o'r gloch unrhyw ddiwrnod.

**7.** (1) Nid oes dim yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darnau o'r gefnffordd neu ar ymyl y gefnffordd y cyfeirir ati yn yr erthyglau hynny cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi:-

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio, mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithrediadau canlynol, sef: -

  (i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

  (ii) symud ymaith unrhyw rwystr i draffig;

  (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o'r gefnffordd; neu

  (iv) gosod, codi, newid neu drwsio, ar y darnau o'r gefnffordd neu ymyl y gefnffordd, neu ar dir cyfagos iddynt, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw offer ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw linell delegraffig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebu 2003**(5)**;

(ch) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(d) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej sydd ar y darnau o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddynt; neu

(dd) i'r cerbyd gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu.

(2) Nid oes dim yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i gerbyd person anabl y mae bathodyn person anabl a disg parcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gofalu am y cerbyd, wedi marcio arnynt yr amser pan ddechreuodd y cyfnod aros) yn cael eu harddangos yn y man perthnasol arno, aros ar ymyl y darnau o'r gefnffordd y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny am gyfnod nad yw'n fwy na 3 awr, sef cyfnod y bydd ysbaid o un awr o leiaf rhyngddo a chyfnod blaenorol o aros pan fu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod.

**Cymhwyso**

**8.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 11 Hydref 2012

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 2000/1786
**(4)** O.S. 2000/1785
**(5)** 2003 p.21

## YR ATODLENNI

### ATODLEN l
### Gwahardd aros, llwytho a dadlwytho ar unrhyw adeg

Y darn o ymyl dwyreiniol y gefnffordd a elwir Heol y Bont sy'n ymestyn o bwynt 74 o fetrau i'r de-orllewin o bwynt canol ei chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr W6193 Lôn y Llan hyd at bwynt 10 metr i'r de-orllewin o bwynt canol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth honno.

### ATODLEN 2
### Gwahardd aros ar unrhyw adeg

Y darn o ymyl dwyreiniol y gefnffordd a elwir Heol y Bont sy'n ymestyn o bwynt 87 o fetrau i'r de-orllewin o bwynt canol ei chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr W6193 Lôn y Llan hyd at bwynt 185 o fetrau i'r de-orllewin o bwynt canol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth honno.

### ATODLEN 3
### Llwytho a dadlwytho yn unig (10:00 – 15:00)

Y darn o ymyl dwyreiniol y gefnffordd a elwir Heol y Bont sy'n ymestyn o bwynt 74 o fetrau i'r de-orllewin o bwynt canol ei chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr W6193 Lôn y Llan hyd at bwynt 87 o fetrau i'r de-orllewin o bwynt canol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth honno.

### ATODLEN 4
### Gwahardd aros, llwytho a dadlwytho (15:00 – 10:00)

Y darn o ymyl dwyreiniol y gefnffordd a elwir Heol y Bont sy'n ymestyn o bwynt 74 o fetrau i'r de-orllewin o bwynt canol ei chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr W6193 Lôn y Llan hyd at bwynt 87 o fetrau i'r de-orllewin o bwynt canol ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth honno.